**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAu)

Rhagfyr 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddPPIA



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAu)

Rhagfyr 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Bydd y pwnc yn parhau yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Enw blaenorol y Pwyllgor oedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Ann Jones (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Angela Burns**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Suzy Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**John Griffiths**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Lynne Neagle**
Llafur Cymru
Torfaen



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberafan



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



**Rhodri Glyn Thomas**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** ..... 5

**Crynodeb Gweithredol** ..... 7

**Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg** ..... 15

**1. Pa mor effeithiol y mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Cynlluniau Strategol Cymraegmewn Addysg yn cydweithio?** ..... 16

Cyfliniad rhwng y Strategaethau a'r Cynlluniau Strategol ..... 16

Targedau'r Strategaeth a Chynlluniau Strategol ..... 17

Categoreiddio, diffiniadau a chanlyniadau ieithyddol ..... 18

Barn y Gweinidog ..... 19

Safbwynt y Pwyllgor ..... 20

**Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg** ..... 23

**2. A yw Cynlluniau Strategol yn ddigon effeithiol o ran cefnogi'r strategaeth genedlaethol?** ..... 24

Effeithiolrwydd y Cynlluniau Strategol ..... 24

Rhwystrau i effeithiolrwydd ..... 25

Barn y Gweinidog ..... 29

Safbwynt y Pwyllgor ..... 31

**Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg** ..... 34

**3. A yw'r rolau a'r cyfrifoldebau'n glir mewn perthynas â Chynlluniau Strategol?** ..... 35

Atebolrwydd gwleidyddol a rôl swyddogion ..... 35

Cynllunio rhanbarthol ..... 35

Rôl fforymau ..... 36

Cyfrifoldeb am hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ..... 37

Rôl Llywodraeth Cymru ..... 38

Barn y Gweinidog ..... 40

Safbwynt y Pwyllgor ..... 41

**Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg** ..... 44

**4. I ba raddau y mae Cynlluniau Strategol yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? .......... 45**
Dechrau'n Deg .......... 46
Trafnidiaeth dysgwyr ac ysgolion .......... 48
Materion eraill .......... 49
Barn y Gweinidog .......... 50
Safbwynt y Pwyllgor .......... 52
**Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg .......... 54**
**Atodiad A – Dull y Pwyllgor o weithredu .......... 55**
Cylch Gorchwyl .......... 55
Dull y Pwyllgor o weithredu .......... 55
**Atodiad B - Cyd-destun a chefndir polisi .......... 56**
**Atodiad C - Tystiolaeth ysgrifenedig .......... 59**
**Atodiad D – Tystiolaeth Lafar .......... 62**

## Argymhellion

**Argymhelliad 1**: Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod targedau'r Strategaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Strategol a bod yn fwy cadarn wrth gymeradwyo'r Cynlluniau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru. *Tudalen 21*

**Argymhelliad 2**: Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gyflawni ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. *Tudalen 21*

**Argymhelliad 3:** Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd argymhellion adolygiad Donaldson yn mynd i'r afael â'r amrywiad yn neilliannau ieithyddol y gwahanol fathau o ddarpariaeth. *Tudalen 22*

**Argymhelliad 4:** Dylai'r Gweinidog adolygu a chyhoeddi canllawiau newydd ar ddiffiniadau o ddarpariaeth a chategoreiddio ieithyddol ysgolion. *Tudalen 22*

**Argymhelliad 5:** Dylai'r Gweinidog adolygu'r broses ar gyfer newid categori ysgol, gyda'r nod o'i symleiddio. *Tudalen 22*

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch amserlenni a threfniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd Cynlluniau Strategol. *Tudalen 32*

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am ei rôl yn cymeradwyo Cynlluniau Strategol, gan gynnwys manylion am ei hymateb i Gynlluniau Strategol pob awdurdod lleol a, phan fo'n briodol, y rhesymau pam y cafodd Cynllun Strategol ei gyfeirio yn ôl at awdurdod lleol i'w addasu, a'r camau a gymerwyd gan awdurdod lleol o ganlyniad i hynny. *Tudalen 32*

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach gydag awdurdodau lleol ynghylch ei disgwyliadau mewn perthynas â hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg fel bod pob awdurdod lleol yn ymrwymo i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru. *Tudalen 33*

**Argymhelliad 9:** Cyn iteriad nesaf y Cynlluniau Strategol, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r prosesau ar gyfer asesu'r galw er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cadarn. Dylai prosesau gynnwys darpariaeth i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. *Tudalen 33*

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth mewn perthynas â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai'r strategaeth gynnwys adnoddau y gall awdurdodau lleol ac ysgolion eu defnyddio a'u haddasu. *Tudalen 42*

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid i gryfhau rôl fforymau fel eu bod yn fwy effeithiol. Dylai fforymau fod yn agored ac yn gynrychioliadol a dylent adrodd yn ôl yn flynyddol. *Tudalen 42*

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â Chynlluniau Strategol. *Tudalen 43*

**Argymhelliad 13:** Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth bresennol i ymyrryd pan fydd awdurdodau lleol yn methu â chyflawni eu Cynlluniau Strategol. *Tudalen 43*

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru egluro hefyd beth yw'r rhesymau am y diffyg rhwng canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o dan y rhaglen Dechrau'n Deg a'i tharged i 25 y cant o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015 (a 30 y cant erbyn 2020). Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg. *Tudalen 52*

**Argymhelliad 15:** Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod trefniadau o ran trafnidiaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog yn cefnogi cyrraedd targedau ei Strategaeth. *Tudalen 52*

**Argymhelliad 16:** Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y bydd yn mynd i'r afael â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a p'un a fyddai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd i ddod yn gyfrwng priodol i wneud hynny. *Tudalen 53*

**Argymhelliad 17:** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o sicrhau y caiff pwysigrwydd addysg ôl-16 ei adlewyrchu yn y strategaeth ac yng Nghynlluniau Strategol awdurdodau lleol. *Tudalen 53*

## Crynodeb Gweithredol

1. Mae gan Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) y potensial i sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg ac sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd llawer o randdeiliaid yn cydnabod y potensial hwn ac yn croesawu'r Cynlluniau pan gawsant eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae llawer o'r rhanddeiliaid hynny wedi'u siomi gan ddiffyg effaith y Cynlluniau wrth iddynt gael eu gweithredu. Iddynt hwn, mae hanes y Cynlluniau hyd yn hyn wedi bod yn un o golli cyfle. Yn fwy pryderus, mae pryderon cynyddol nad ydynt yn addas i'r diben.

**Pa mor effeithiol y mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cydweithio?**

*"We have already acknowledged in the last two Annual Reports on the Welsh-medium Education Strategy that we would be unlikely to meet all the 2015 targets. Against that background, it seems unlikely that those targets which will not be met in 2015 will also be met in 2020 without improved planning and action at local authority level."*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

2. Mae'r datganiad hwn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dangos her sylfaenol i system y Cynlluniau. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu strategaethau a thargedau cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y strategaethau hynny yn troi'n ganlyniadau pendant yn lleol. Mae hyn yn creu cymhlethdodau o ran atebolrwydd.

3. Mae'r Gweinidog yn cydnabod na ellir cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru heb awdurdodau lleol, ond ni wnaeth unrhyw beth a glywsom yn ystod yr ymchwiliad awgrymu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydweithio ddigon i gyrraedd targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi'r gwaith cynllunio a gweithredu gwell sydd ei angen i gyrraedd y targedau.

4. Mae angen dybryd am weithio'n well mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Pan fo awdurdodau lleol yn methu, bydd angen i Weinidogion ymyrryd, ond dylai gweithio'n well mewn partneriaeth fod yn fan cychwyn. Heb hynny, ac ymrwymiad ar y cyd i gyrraedd y targedau, mae'n anodd gweld sut y gellir bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

**Argymhelliad: Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod targedau'r Strategaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Strategol a bod yn fwy cadarn wrth gymeradwyo'r Cynlluniau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru.**

**Argymhelliad: Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gyflawni ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.**

***Categoreiddio, diffiniadau a chanlyniadau ieithyddol***

*"I think there are weaknesses, if we fixate ourselves on the idea that there are things called 'English-medium settings', 'bilingual settings' and 'Welsh-medium settings'. What really matters is: does the individual acquire the language skill?"*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

5. Eglurder ynghylch beth yw addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau'r deilliannau ieithyddol gorau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg oedd y pryderon i lawer o gyfranwyr. Rydym yn nodi barn y Gweinidog, ond mae'n amlwg bod natur y ddarpariaeth ieithyddol mewn lleoliad penodol yn cael effaith ar ganlyniadau ieithyddol disgyblion. Yn bwysicach, rhaid i'r holl fathau gwahanol o ddarpariaeth sydd ar gael, ac unrhyw effaith ddilynol ar ganlyniadau ieithyddol, fod yn gwbl glir i rieni sy'n gwneud penderfyniadau am addysg eu plant. Rhaid i awdurdodau lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael.

6. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r materion hyn yn cael eu hailystyried yn sgil Adolygiad Donaldson, ond bod diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd gweithredu'r Adolygiad hwn yn mynd i'r afael â hwy ac yn cynnig atebion. At hynny, rydym yn rhannu pryderon cyfranwyr a rybuddiodd yn erbyn aros blynyddoedd i system newydd ddod i rym – mae'r diffyg cynnydd o ran cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn broblem sy'n bodoli nawr, ac y mae angen mynd i'r afael â hi.

7. Nodwn y sylwadau a wnaed gan awdurdodau lleol ac eraill ynghylch yr heriau a wynebir ganddynt wrth newid categori iaith ysgol. Roedd cyfranwyr yn credu bod y broses gymhleth hon yn creu rhwystr ychwanegol i ymateb i anghenion cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ymchwilio pa mor hir mae'n ei gymryd i newid y categori iaith a sicrhau bod y broses mor effeithiol ag y gall fod.

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd argymhellion adolygiad Donaldson yn mynd i'r afael â'r amrywiad yn neilliannau ieithyddol y gwahanol fathau o ddarpariaeth.**

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog adolygu a chyhoeddi canllawiau newydd ar ddiffiniadau o ddarpariaeth a chategoreiddio ieithyddol ysgolion.**

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog adolygu'r broses ar gyfer newid categori ysgol, gyda'r nod o'i symleiddio.**

### A yw Cynlluniau Strategol yn ddigon effeithiol o ran cefnogi'r strategaeth genedlaethol?

8. Fel sawl cyfrannwr, mae'r Pwyllgor yn derbyn ei bod, efallai, yn rhy gynnar i fynegi barn gadarn ynghylch effaith ac effeithiolrwydd y Cynlluniau Strategol. Fodd bynnag, ni ddylai Llywodraeth Cymru anwybyddu pryderon Comisiynydd y Gymraeg bod gwendidau sylweddol yn dod i'r amlwg, a rhaid rhoi sylw iddynt.

#### *Tryloywder*

9. Roedd canfyddiad ymhlith nifer o'r cyfranwyr nad yw'r system Cynlluniau Strategol yn ddigon tryloyw. Mae'n anodd asesu a yw Cynllun Strategol wedi cael ei ddiwygio a, pan fydd yn bosibl canfod newidiadau, mae'n amhosibl gwybod a gawsant eu gwneud i ymateb i argymhellion gan Lywodraeth Cymru neu oherwydd bod yr awdurdod lleol ei hun wedi penderfynu bod angen newidiadau. Dylid mynd i'r afael â hyn fel bod yr holl newidiadau a'r rhesymau drostynt yn glir i randdeiliaid.

10. Er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd, dylai awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi amlinelliad o'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i gyrraedd y targedau yn eu Cynlluiau Strategol. Dylai'r adroddiad gynnwys manylion unrhyw addasiadau a wneir i Gynlluniau Strategol, gan gynnwys a ydynt wedi cael eu gwneud o ganlyniad i argymhellion gan Lywodraeth Cymru. O ystyried bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru wedi dweud na fyddai hyn yn faich ar awdurdodau lleol, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i hyn ddigwydd yn wirfoddol. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol os na wneir hynny'n wirfoddol.

11. Yng nghyd-destun gweithio mewn partneriaeth a gwella tryloywder, dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi gwybodaeth flynyddol am ei rôl yn y broses.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch amserlenni a threfniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd Cynlluniau Strategol.**

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am ei rôl yn cymeradwyo Cynlluniau Strategol, gan gynnwys manylion am ei hymateb i Gynlluniau Strategol pob awdurdod lleol a, phan fo'n briodol, y rhesymau pam y cafodd Cynllun Strategol ei gyfeirio yn ôl at awdurdod lleol i'w addasu, a'r camau a gymerwyd gan awdurdod lleol o ganlyniad i hynny.**

***Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg***

12. Rydym yn deall bod y gwaith o asesu'r galw yn gymhleth ac na fydd un dull penodol yn gweithio. Nodwn sylw'r Gweinidog fod asesiadau o'r fath wedi bod, hyd yma, yn 'rhesymol gadarn'. Fodd bynnag, roedd gan sawl cyfrannwr, gan gynnwys awdurdodau lleol, bryderon ynghylch a yw dulliau cyfredol mor ddibynadwy neu gadarn ag y dylent fod. Mynegwyd pryderon ynghylch amseriad asesiadau a darparu gwybodaeth annigonol i rieni, a oedd yn golygu nad oeddent yn gallu ymateb mewn ffordd ystyrlon. Ymhellach, mae'n anodd deall sut y gall asesiadau gyda chyfraddau ymateb isel iawn gael eu defnyddio fel sail ar gyfer cynllunio effeithiol.

13. Soniodd y cyfranwyr am y rôl ddeuol sydd gan awdurdodau lleol wrth asesu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â hyrwyddo ei thwf. Roedd barn gref bod awdurdodau lleol wedi cael trafferth deall y rôl ddeuol hon yn llawn. Mae'n rhaid ymateb i hyn.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach gydag awdurdodau lleol ynghylch ei disgwyliadau mewn perthynas â hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg fel bod pob awdurdod lleol yn ymrwymo i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.**

**Argymhelliad: Cyn iteriad nesaf y Cynlluniau Strategol, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r prosesau ar gyfer asesu'r galw er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cadarn. Dylai prosesau gynnwys darpariaeth i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.**

**A yw'r rolau a'r cyfrifoldebau'n glir mewn perthynas â Chynlluniau Strategol?**

14. Ystyriodd y Pwyllgor a oedd digon o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac eraill mewn perthynas â Chynlluniau Strategol.

***Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth***

15. Roedd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn fater allweddol i sawl cyfrannwr i'r ymchwiliad. Ym marn y Pwyllgor, rhaid i hyn ddigwydd ar sawl lefel wahanol er mwyn iddo fod yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am hyrwyddo'n genedlaethol; dylai awdurdodau lleol wneud gwaith hyrwyddo sydd wedi'i deilwra i'w cymunedau yn lleol; ac yn olaf, mae rôl i ysgolion sicrhau eu bod yn ymgysylltu â rhieni yn lleol.

16. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i ddarbwyllo bod gwaith hyrwyddo Llywodraeth Cymru yn genedlaethol wedi bod yn effeithiol a chred ei bod yn hanfodol ei bod yn gwneud hyn yn well.

17. Rhaid i Awdurdodau Lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod gwybodaeth ystyrlon ar gael i rieni am y gwahanol fathau o ddarpariaeth yn eu hardaloedd. Heb ddealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael, mae rhieni yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am addysg eu plant.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth mewn perthynas â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai'r strategaeth gynnwys adnoddau y gall awdurdodau lleol ac ysgolion eu defnyddio a'u haddasu.**

***Fforymau addysg cyfrwng Cymraeg***

18. Cred yr holl gyfranwyr i'r ymchwiliad fod gan fforymau y potensial i chwarae rôl hanfodol o ran darparu Cynlluniau Strategol. Fodd bynnag, roedd sôn nad yw'r potensial yn cael ei wireddu'n llawn oherwydd diffyg cysondeb o ran dull ac aelodaeth. Teimla'r cyfranwyr y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gynorthwyo awdurdodau lleol i rannu arfer da a sicrhau effeithiolrwydd fforymau. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth a amlinellir yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â Chynlluniau Strategol.

19. Cred y Pwyllgor y dylai fforymau fod yn agored ac yn dryloyw ac y dylai aelodau'r cyhoedd allu mynychu eu cyfarfodydd os ydynt yn dymuno. Dylai Fforymau hefyd gyhoeddi gwybodaeth am y gwaith y maent wedi'i wneud.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid i gryfhau rôl fforymau fel eu bod yn fwy effeithiol. Dylai fforymau fod yn agored ac yn gynrychioliadol a dylent adrodd yn ôl yn flynyddol.**

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â Chynlluniau Strategol.**

***Pwerau i ymyrryd***

20. Teimla rhai o'r rhanddeiliaid yn gryf y dylai'r Gweinidog ymyrryd pan nad yw awdurdodau lleol yn cyrraedd y targedau yn eu Cynlluniau Strategol. Cydnabuwyd na ddylai ymyrraeth o'r fath fod yn angenrheidiol os yw'r system Cynlluniau Strategol yn gweithio'n iawn ac yn sicrhau mwy o ddarpariaeth yn lleol.

21. Ceisiodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol ynghylch p'un a all Gweinidogion Cymru ymyrryd a chymryd camau os ystyriwyd nad oedd awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd i baratoi a gweithredu Cynlluniau Strategol yn gywir. Cynghorwyd y Pwyllgor y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i ymyrryd o dan adran 21 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn perthynas â Chynlluniau Strategol.

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth bresennol i ymyrryd pan fydd awdurdodau lleol yn methu â chyflawni eu Cynlluniau Strategol.**

### I ba raddau y mae Cynlluniau Strategol yn adlewyrchu amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg?

22. Ystyriodd y Pwyllgor a yw polisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu cydgysylltu i fodloni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

***Dechrau'n Deg***

23. Nodwn y pryderon a fynegwyd gan gyfranwyr ynghylch y prinder mewn lleoedd Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg (neu ddarpariaeth gymysg) o'i gymharu â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 7 oed a chredwn y gallai hyn gael effaith sylweddol ar gynnydd o ofal plant i ddarpariaeth

addysg gynnar cyfrwng Cymraeg. Bydd y diffyg hwn yn cael yr effaith fwyaf ar blant o deuluoedd incwm isel. Unwaith eto, mae hyn yn enghraifft o strategaeth genedlaethol heb gael ei halinio â darpariaeth leol.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro beth yw'r rhesymau am y diffyg rhwng canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o dan y rhaglen Dechrau'n Deg a'i tharged i 25 y cant o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015 (a 30 y cant erbyn 2020). Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg.**

### *Trafnidiaeth dysgwyr ac ysgolion*

24. Roedd gan y cyfranwyr bryderon sylweddol ynghylch y mater hwn, yn arbennig o ran cyflwyno ffioedd teithio i fyfyrwyr ôl-16 i gyrraedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth, ond rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater fel bod polisïau trafnidiaeth dysgwyr yn cefnogi, ac nid yn tanseilio, sut y caiff y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ei darparu. Efallai bod angen ailystyried y Mesur Teithio gan Ddysgwyr er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn cyd-fynd ag amcanion Cynlluniau Strategol a'r Strategaeth.

**Argymhelliad: Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod trefniadau o ran trafnidiaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog yn cefnogi cyrraedd targedau ei Strategaeth.**

### *Anghenion Dysgu Ychwanegol*

25. Ymddengys bod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd am gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir amrywiaeth ranbarthol hefyd yn lefel y ddarpariaeth. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys a gallai fod yn briodol cyflwyno trefn ranbarthol o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

**Argymhelliad: Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y bydd yn mynd i'r afael â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a p'un a fyddai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd i ddod yn gyfrwng priodol i wneud hynny.**

### *Addysg bellach – ôl-16*

26. Rydym yn cytuno y dylid cynnwys darpariaeth addysg bellach mewn Cynlluniau Strategol er mwyn cryfhau'r parhâd o'r blynyddoedd cynnar i


ddarpariaeth addysg bellach. Gall hyn hefyd helpu i fynd i'r afael â'r pryderon mewn perthynas â chapasiti gweithlu dwyieithog.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o sicrhau y caiff pwysigrwydd addysg ôl-16 ei adlewyrchu yn y strategaeth ac yng Nghynlluniau Strategol awdurdodau lleol.**

### *Adolygiad Donaldson*

27. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog y bydd gweithredu Adolygiad Donaldson yn cael effaith sylweddol ar addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor, yn y cyfamser, fod yn rhaid i'r Gweinidog sicrhau na chaiff cyfleoedd eu colli oherwydd ffocws ar systemau a gaiff eu rhoi ar waith mewn ychydig flynyddoedd. Bydd colli ffocws dros y dair i bum mlynedd nesaf yn cael effaith sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i fodloni ei dyheadau.

# Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg




*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2014-15, Llywodraeth Cymru*

# 1. Pa mor effeithiol y mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cydweithio?

*Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ganfod a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) yn adnodd effeithiol i gyflawni uchelgeisiau a thargedau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (WMES). Ystyriodd y Pwyllgor a oes digon o gyfliniad rhwng y Strategaeth a'r Cynlluniau Strategol a'r ffordd o bennu targedau.*[1]

**Cyfliniad rhwng y Strategaethau a'r Cynlluniau Strategol**

28. Dywedodd y Mudiad Meithrin ei fod yn croesawu'r Strategaeth a'r Cynlluniau Strategol fel adnoddau ar gyfer monitro, cynllunio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol ac yn genedlaethol. Fodd bynnag, ychydig o gynnydd oedd wedi'i wneud ers cyflwyno'r strategaeth a chred nad yw'r Cynlluniau Strategol yn "cyfrannu'n ddigonol at y deilliannau a'r targedau a nodir yn y Cynllun cenedlaethol"[2]. Cred Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) fod y berthynas rhwng y Strategaethau a'r Cynlluniau Strategol unigol yn aneglur; bod diffyg cydgysylltu rhwng y polisi cenedlaethol a gaiff ei yrru gan Lywodraeth Cymru ar lefel strategol ac awdurdodau lleol yn ei weithredu ar lawr gwlad.[3]

29. Credai Comisiynydd y Gymraeg fod gan Gynlluniau Strategol y potensial i sicrhau cysondeb a hwyluso dull mwy strategol. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiynydd wedi'i darbwyllo bod y Cynlluniau Strategol yn cyflawni hyn ar hyn o bryd ac "os na wnaiff y Llywodraeth gydio yn yr amcan strategol yna nawr o ran Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg, byddwn wedi colli cyfle anhygoel."[4]

30. Roedd gan yr awdurdodau lleol a gyfrannodd safbwyntiau gwahanol ar alinio Cynlluniau Strategol a'r Strategaeth. Roedd Bro Morgannwg o'r farn nad yw'r amcanion strategol yng Nghynllun Cymraeg mewn Addysg 2010 wedi'u hintegreiddio'n llawn yng ngofynion y Cynllun Strategol[5] a theimla Sir Gaerfyrddin ac ERW nad oedd y Cynlluniau Strategol yn cyfrannu digon at y gwaith o gyflawni amcanion neu gyrraedd targedau yn y Strategaeth. Fodd bynnag, cred Cyngor Gwynedd fod cyswllt clir rhwng y Strategaeth a'r Cynlluniau Strategol, gan nodi fod ei Gynllun Strategol wedi galluogi'r

[1] Mae disgrifiad o gefndir a chyd-destun polisi'r Cynlluniau Strategol ar gael yn Atodiad B.
[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20
[3] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[4] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP15

awdurdod lleol i gryfhau ei weithdrefnau a oedd, yn eu tro, yn sicrhau ei fod yn cyfrannu at amcanion strategol a thargedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.[6]

**Targedau'r Strategaeth a Chynlluniau Strategol**

31. Archwiliodd y Pwyllgor a oedd targedau a osodwyd mewn Cynlluniau Strategol awdurdodau lleol unigol yn ddigon uchelgeisiol i gyrraedd targedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar y cyd. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu nad oedd y targedau unigol yn ddigon uchelgeisiol ac y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagnodol o ran beth y dylai targedau lleol priodol fod.

32. Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg sylw fod yr ystadegau sydd ar gael yn awgrymu nad oedd twf wedi bod mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod cynnydd wedi bod yn y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.[7] Nododd y Comisiynydd nad oedd y targedau presennol yn y Cynlluniau Strategol yn ddigon uchelgeisiol i wireddu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

33. Roedd Pentan (Clwstwr Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Castell-nedd Port Talbot) o'r farn mai'r prif wendid yn y system gyfredol oedd y diffyg atebolrwydd os na chyrhaeddir y targedau.[8] Teimla nifer o gyfranwyr, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg[9] a Dyfodol i'r Iaith[10] y dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd pan fo'n amlwg nad yw'r targedau'n cael eu cyrraedd.

34. Awgrymodd y cyfranwyr fod angen gwella'r ffordd y caiff targedau eu pennu. Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru at gymhlethdod y system gyfredol ar gyfer pennu targedau mewn ardaloedd sydd ag amrywiaeth o ddarpariaeth ieithyddol yn y sector addysg uwchradd, a allai "[g]reu problemau yn y siroedd hynny lle nad oes ysgolion yn darparu naill ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn unig – hynny yw ysgolion dwy ffrwd/dwyieithog."[11] Awgrymodd Bro Morgannwg ddull mwy realistig o ran pennu targedau cenedlaethol, a allai gynnwys rhanbarthu targedau. Byddai hyn yn golygu yr adlewyrchir amcanion strategol Llywodraeth Cymru yn y Cynlluniau Strategol yn well[12].

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP29
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP12
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP39
[9] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP05
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP38
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP15

Nododd RhAG y dylai'r system gyfredol gynnwys targedau twf ar gyfer pob awdurdod lleol.

35. Teimla'r Mudiad Meithrin y dylid ystyried targedau ar gyfer darparu gofal plant yn genedlaethol ac ar lefel Cynlluniau Strategol, gan fod dewisiadau rhieni mewn perthynas â gofal plant yn debygol o gael effaith ar benderfyniadau dilynol mewn perthynas ag addysg eu plant.

**Categoreiddio, diffiniadau a chanlyniadau ieithyddol**

36. Soniodd nifer o'r cyfranogwyr am ganlyniadau ieithyddol a'r angen am ddiffiniadau clir o'r hyn sy'n cyfrif fel addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg ddwyieithog. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni ac asesu'r galw. Heb ddiffiniadau clir, yn ôl y Mudiad Meithrin, "nid oes modd sicrhau nad ydy'r sawl sydd yn ymateb i'r asesiad wedi drysu dymuniad i'r plentyn i fod yn ddwyieithog (a medru defnyddio'r ddwy iaith fel canlyniad naturiol gofal cyfrwng Cymraeg) gyda defnydd y ddwy iaith yn y lleoliad gofal (fyddai'n mynd yn groes i egwyddorion y dull trochi)."[13]

37. Roedd RhAG o'r un farn, gan nodi bod angen mwy o onestrwydd gyda rhieni ynghylch canlyniadau ieithyddol posibl y gwahanol fathau o ddarpariaethau (e.e. addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog). Teimla Comisiynydd y Gymraeg hefyd y gallai'r diffyg eglurder effeithio ar ddewis y rhiant, gan nodi bod amrywiaeth sylweddol yn y ffordd y caiff addysg "ddwyieithog" ei diffinio a'i dehongli.

38. Cyfeiriodd RhAG at y canllawiau dros dro ar gategoreiddio a dynodi ysgolion, a gyhoeddwyd yn 2007 ac a oedd yn dal i gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol. Teimla fod sicrhau'r diffiniadau cywir mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg yn hanfodol ac awgrymwyd y dylid diwygio'r canllawiau a'u hailgyhoeddi "i roi arweiniad a diffiniad clir i siroedd o beth sy'n ddisgwyliedig ohonyn nhw, a beth ddylen nhw wedyn fod yn ei ddarparu."[14] Byddai hyn yn arwain at awdurdodau lleol yn gallu nodi'n glir y diffiniad ieithyddol a ddefnyddir mewn ysgol ac, o ganlyniad i hynny, byddai'n haws i rieni wneud dewisiadau ystyrlon.

39. Soniodd Comisiynydd y Gymraeg am newid categori iaith ysgol, gan nodi faint o amser sydd ei angen i weithredu newidiadau i drefniadau darpariaeth. Cyfeiriodd at yr wyth cam a nodir yn y Cod Statudol Trefniadaeth Ysgolion (2013), ar gyfer gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20
[14] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion

mewn ysgolion, ac awgrymodd efallai bod y broses yn rhwystro gallu awdurdodau lleol i wneud newidiadau mewn ffordd amserol.

40. Soniodd Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin ac ERW hefyd am y mater, gan nodi y dylai'r system ar gyfer symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith fod yn haws.[15] Soniodd Mentrau Iaith Cymru, Conwy a Cheredigion am yr heriau o newid ysgolion dwy ffrwd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Awgrymodd y Mudiad Meithrin y "dylid sicrhau bod amserlen penodol yn cael ei osod ar gyfer ysgolion sy'n cael eu nodi'n 'Ysgolion Trawsnewidiol' gan yr Awdurdod Addysg er mwyn gosod targed clir ar gyfer cyflawni'r newid hwn."[16]

**Barn y Gweinidog**

41. Roedd y Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd Cynlluniau Strategol. Fodd bynnag, ni ddylid gorbwysleisio eu heffaith bosibl ar y nifer y siaradwyr Cymraeg:

> "The WESP has usefulness. It gives us a structure. It gives us an annual conversation in a particular area. It gives parents something that they can clearly latch onto in terms of expressing their wants and their wishes, but it will not, of itself, deliver a bilingual nation. It's not that grand a thing. It has its usefulness in terms of planning of school places, and that's important."[17]

42. Mewn perthynas â chyfraniad Cynlluniau Strategol at ddarparu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, dywedodd y Gweinidog:

> "Local authorities have had 3 years in which to develop and refine their WESPs but the extent to which Ministerial approval has required modifications suggests that there is still some way to go before they are sufficiently embedded in local authority processes to contribute more effectively to the targets and outcomes of the Welsh-medium Education Strategy."[18]

43. Mewn perthynas â p'un a fyddai targedau Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyrraedd, dywedodd y Gweinidog:

> "We have already acknowledged in the last two Annual Reports on the Welsh-medium Education Strategy that we would be unlikely to meet

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP36
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20
[17] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20

all the 2015 targets. Against that background, it seems unlikely that those targets which will not be met in 2015 will also be met in 2020 without improved planning and action at local authority level.

However, as reported in the Annual Report on the Welsh-medium Education Strategy last year progress has been made against some of the targets and that the 2015 target to increase the number of learners aged 16-19 studying subjects through the medium of Welsh in further education colleges and work-based learning was achieved."[19]

44. Teimla'r Gweinidog y bydd canlyniadau adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael effaith ar yr ymagwedd tuag at gategoreiddio ysgolion, gan ddweud bod y gwahaniaethu, mewn gwirionedd, rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg yn rhywbeth y dylid ei gwestiynu pan ddaw i ddatblygu adolygiad Donaldson.[20] Mewn perthynas â'r mathau gwahanol o ddarpariaeth iaith, dywedodd y Gweinidog:

> "I think there are weaknesses, if we fixate ourselves on the idea that there are things called 'English-medium settings', 'bilingual settings' and 'Welsh-medium settings'. What really matters is: does the individual acquire the language skill? To my mind, we need to reconfigure our thinking, as we work through Donaldson in that regard—that every Welsh child should have the opportunity to acquire the language. How best do we deliver that?"[21]

## Safbwynt y Pwyllgor

45. Mae datganiadau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dangos her sylfaenol i system y Cynlluniau. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu strategaethau a thargedau cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y strategaethau hynny yn troi'n ganlyniadau pendant yn lleol. Mae hyn yn creu cymhlethdodau o ran atebolrwydd.

46. Mae'r Gweinidog yn cydnabod na ellir cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru heb awdurdodau lleol, ond ni wnaeth unrhyw beth a glywsom yn ystod yr ymchwiliad awgrymu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydweithio ddigon i gyrraedd targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi'r gwaith cynllunio a gweithredu gwell sydd ei angen i gyrraedd y targedau.

---

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20
[20] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[21] ibid

47. Mae angen dybryd am weithio'n well mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Pan fo awdurdodau lleol yn methu, bydd angen i Weinidogion ymyrryd, ond dylai gweithio'n well mewn partneriaeth fod yn fan cychwyn. Heb hynny, ac ymrwymiad ar y cyd i gyrraedd y targedau, mae'n anodd gweld sut y gellir bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

**Argymhelliad: Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod targedau'r Strategaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Strategol a bod yn fwy cadarn wrth gymeradwyo'r Cynlluniau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru.**

**Argymhelliad: Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gyflawni ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.**

***Categoreiddio, diffiniadau a chanlyniadau ieithyddol***

48. Eglurder ynghylch beth yw addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau'r deilliannau ieithyddol gorau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg oedd y pryderon i lawer o gyfranwyr. Rydym yn nodi barn y Gweinidog ynghylch y mater, ond mae'n amlwg bod natur y ddarpariaeth ieithyddol mewn lleoliad penodol yn cael effaith ar ganlyniadau ieithyddol disgyblion. Yn bwysicach, rhaid i'r holl fathau gwahanol o ddarpariaeth sydd ar gael, ac unrhyw effaith ddilynol ar ganlyniadau ieithyddol, fod yn gwbl glir i rieni sy'n gwneud penderfyniadau am addysg eu plant. Rhaid i awdurdodau lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael.

49. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r materion hyn yn cael eu hailystyried yn sgil Adolygiad Donaldson, ond bod diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd gweithredu'r Adolygiad hwn yn mynd i'r afael â hwy ac yn cynnig atebion. At hynny, rydym yn rhannu pryderon cyfranwyr a rybuddiodd yn erbyn aros blynyddoedd i system newydd ddod i rym – mae'r diffyg cynnydd o ran cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn broblem sy'n bodoli nawr, ac y mae angen mynd i'r afael â hi.


50. Nodwn y sylwadau a wnaed gan awdurdodau lleol ac eraill ynghylch yr heriau a wynebir ganddynt wrth newid categori iaith ysgol. Roedd cyfranwyr yn credu bod y broses gymhleth hon yn creu rhwystr ychwanegol i ymateb i anghenion cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ymchwilio pa mor hir mae'n ei gymryd i newid y categori iaith a sicrhau bod y broses mor effeithiol ag y gall fod.

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd argymhellion adolygiad Donaldson yn mynd i'r afael â'r amrywiad yn neilliannau ieithyddol y gwahanol fathau o ddarpariaeth.**

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog adolygu a chyhoeddi canllawiau newydd ar ddiffiniadau o ddarpariaeth a chategoreiddio ieithyddol ysgolion.**

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog adolygu'r broses ar gyfer newid categori ysgol, gyda'r nod o'i symleiddio.**

# Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg




*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2014-15, Llywodraeth Cymru*

## 2. A yw Cynlluniau Strategol yn ddigon effeithiol o ran cefnogi'r strategaeth genedlaethol?

*O dan y system bresennol, caiff Cynlluniau Strategol eu cynhyrchu ar gyfer cyfnod o dair blynedd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu'r cynnydd a wneir yn ôl y targedau yn eu cynllun bob blwyddyn, a chyflwyno unrhyw gynlluniau diwygiedig i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor a oedd Cynlluniau Strategol yn effeithiol wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu'r strategaeth genedlaethol; a oes rhwystrau'n atal eu heffeithiolrwydd; a pha welliannau y gellid eu gwneud.*[22]

**Effeithiolrwydd y Cynlluniau Strategol**

51. Ystyriodd y cyfranwyr i'r ymchwiliad fod gan y Cynlluniau Strategol y potensial, mewn egwyddor, i fod yn ddull effeithiol iawn o gefnogi'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, cwestiynodd sawl cyfrannwr a oeddent mor effeithiol mewn gwirionedd ag y gallent fod. Dywedodd RhAG ei fod wedi gobeithio y byddai'r Cynlluniau Strategol yn "[g]yfle i ni weld cynlluniau hollol arloesol a hollol chwyldroadol a fyddai'n wirioneddol gyfrannu at ehangu a chynyddu niferoedd y plant o fewn ein haddysg Gymraeg ar draws Cymru."[23] Fodd bynnag, teimla fod y Cynlluniau Strategol gwreiddiol wedi methu.

52. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn amharod i ddweud nad oedd y system yn gweithio ar hyn o bryd, o ystyried ei bod ond wedi bod ar waith am gyfnod byr. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd yn teimlo fod "gwendidau yn dechrau ymddangos yn barod."[24] Mae'r ffaith bod pryderon yn cael eu mynegi mor fuan ar ôl cyflwyno'r system yn awgrymu problemau y mae angen rhoi sylw iddynt.[25]

53. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod y system yn dal i fod yn ei chyfnod ffurfiannol, ond roedd yn derbyn "efallai ei bod wedi cymryd mwy o amser nag oeddwn yn ei ddisgwyl i awdurdodau fynd i'r afael â beth oedd ei eisiau."[26]

54. Teimla Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin a chonsortiwm ERW y dylai Cynlluniau Strategol adlewyrchu'r Strategaethau yn well, ond roeddent yn

[22] Mae disgrifiad o gefndir a chyd-destun polisi/r Cynlluniau Strategol ar gael yn Atodiad B.
[23] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[24] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[25] ibid
[26] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion

cydnabod y gallai awdurdodau lleol golli ffocws ar yr amcanion strategol ehangach yn yr hinsawdd ariannol presennol. Roeddent yn teimlo y dylai'r strategaeth ystyried yr amrywiaeth o ddarpariaethau addysg gwahanol ledled Cymru ac na fyddai un dull yn addas i bob awdurdod lleol neu gonsortiwm. [27] Teimla Blaenau Gwent y byddai'r system Cynlluniau Strategol yn cael budd o rannu arfer da rhwng awdurdodau lleol, efallai ar ffurf fforwm cenedlaethol, wedi'i gydgysylltu gan Lywodraeth Cymru.[28]

55. Cyfeiriodd Conwy at effaith gadarnhaol Cynlluniau Strategol a dywedodd fod ei Gynlluniau wedi bod yn hanfodol ar lefel ysgolion, yn arbennig o ran newid categorïau iaith ac i ysgolion uwchradd ddatblygu cynlluniau ar lefel ysgol.[29]

### Rhwystrau i effeithiolrwydd

56. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan sawl cyfrannwr ynghylch materion penodol a oedd yn atal Cynlluniau Strategol rhag bod mor effeithiol ag y gallent fod.

#### *Cynnwys Cynlluniau Strategol*

57. Gwnaeth awdurdodau lleol sylw ar gymhlethdod y ddogfen Cynlluniau Strategol. Awgrymodd rhai fod hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai rhieni yn ei darllen ac y gallai fod yn rhwystr i ymgynghori'n effeithiol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

58. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod gofynion yr hyn y dylid eu cynnwys yn y ddogfen Cynlluniau Strategol yn gymhleth oherwydd “natur ieithyddol a strwythurau addysg gwahanol ar draws siroedd."[30] Roeddent yn cwestiynu a oedd yn briodol defnyddio un templed ar gyfer pob awdurdod lleol, ac awgrymodd y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio “trefniadau cynllunio busnes lleol sydd eisoes yn bodoli ac yn cael eu cefnogi gan strwythurau corfforaethol y cynghorau”[31].

#### *Asesu'r galw*

59. Roedd cyfranwyr yn glir ynghylch y ffaith bod asesiad cywir o alw lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn hanfodol ar gyfer gweithredu Cynlluniau

---

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP36
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP37
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP24
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP38
[31] ibid

Strategol yn effeithiol. Fodd bynnag, mynegodd nifer o gyfranwyr bryderon ynghylch a oedd galw yn cael ei asesu'n gywir ac a yw'r broses asesu yn un gadarn. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg:

> "Os nad yw'r awdurdodau lleol yn gwbl ymwybodol o faint y galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n anodd dirnad sut y gallant fod yn sicr bod eu cynlluniau ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg yn ddigon uchelgeisiol."[32]

60. Dywedodd RhAG:

> "Rydym yn ymwybodol bod y canllawiau wedi cynorthwyo, yn bendant, rhai siroedd i wneud yr ymarferiad o fesur y galw. Mae rhai awdurdodau lleol wedi aros yn slafaidd gyda'r cwestiynau sy'n cael eu rhoi, oherwydd rheini oedd y cwestiynau angenrheidiol i'w gofyn. Rydym wedi gweld enghreifftiau o le mae awdurdodau lleol wedi ehangu ac wedi gofyn am fwy o wybodaeth, sydd wastad yn beth da, er mwyn medru cael llun ychydig bach yn gliriach."[33]

61. Roedd cyfranwyr yn cydnabod cymhlethdod asesu'r galw mewn modd ystyrlon ac awgrymwyd y gallai'r galw gael ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau, gan gynnwys lleoliad ysgolion, ansawdd adeiladau ysgoion, a'r math o ddarpariaeth a oedd ar gael. Ymhelaethodd Rhondda Cynon Taf ar hyn:

> "In our experience forecasting demand for future provision based purely on parental questionnaires is not a reliable enough source of robust information because of poor response rates and the gap is too wide when compared to actual take up. More accurate forecasting is achieved when coupled with trends. In the current financial climate expanding existing schools or planning new builds is not a realistic option unless the evidence for demand is documented and robust."[34]

62. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cydnabod efallai nad yw arolygon rhieni ar eu pen eu hunain yn adnodd cadarn i asesu'r galw gan fod y lefelau ymateb iddynt yn isel iawn. Cadarnhawyd y cafwyd cyfradd ymateb o 3 y cant ar gyfer arolwg 2014.

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP12
[33] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP01

63. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch amseru rhai asesiadau, gan roi enghraifft o un awdurdod lleol a oedd wedi cynnal arolwg o rieni dros gyfnod y Nadolig.

64. Roedd nifer o gyfranwyr yn cydnabod y gallai argaeledd gwybodaeth i rieni gael effaith ar y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r penderfyniad i anfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg yn un arwyddocaol i rieni; efallai bod rhai'n clywed am addysg cyfrwng Cymraeg am y tro cyntaf. I'r rhieni hynny, teimla RhAG fod cael llythyr drwy'r post yn nodi 'Ydych chi wedi meddwl am addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn?', heb unrhyw fath o wybodaeth ategol, yn gwbl ddibwrpas. Mae angen rhoi cyd-destun a darparu rhagor o wybodaeth.[35]

65. Teimla Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hanfodol darparu gwybodaeth i rieni fel asesiad effeithiol o alw, a dywedodd:

> "Rwy'n credu bod yna gyfrifoldeb yn fan hyn i'r Llywodraeth weithio law yn llaw â llywodraeth leol—yn sicr y Llywodraeth—i gynnig gwybodaeth gynhwysfawr i rieni ynglŷ n â buddion addysg ddwyieithog yn y lle cyntaf, felly pan mae'r galw yn cael ei fesur, mae'n alw sy'n seiliedig ar dystiolaeth."[36]

66. Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn, awgrymodd Mentrau Iaith Cymru y dylid cyflwyno system safonol er mwyn gallu asesu'r galw yn gywir. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru o'r un farn, a nodwyd y "byddai'n fanteisiol i gael trefn 'Mesur y Galw' / adnodd oddi wrth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r her yma."[37] Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud mwy i rannu arfer da.

### *Cyllid a chyfranogiad awdurdodau lleol*

67. Mewn perthynas â nod Llywodraeth Cymru fod awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd (yn hytrach nag ateb y galw cyfredol), dywedodd RhAG nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mynd i'r afael â'r ffordd newydd o feddwl a ddisgwyliwyd. Awgrymodd CLlLC / CCAC, hyd nes y byddai Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir i awdurdodau lleol y dylent flaenoriaethu addysg cyfrwng Cymraeg, byddent yn parhau i ddefnyddio eu hadnoddau cyfyngedig i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol presennol, megis gwella llythrennedd a rhifedd.

---

[35] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[36] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP38

68. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r cyllid beryglu effeithiolrwydd Cynlluniau Strategol, gan gynnwys:

- Penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg, sy'n golygu nad yw wedi'i neilltuo mwyach.
- A yw awdurdodau lleol yn cael y cymorth, yr arweiniad a'r adnoddau angenrheidiol.
- Y gallai effaith y toriadau yn y gyllideb arwain awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau a allai gael effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg.

69. Teimla RhAG fod yr hinsawdd ariannol presennol yn golygu fod angen i awdurdodau lleol ystyried ffyrdd creadigol o gynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael, gan dynnu sylw at nifer o fentrau nad oes angen symiau sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf arnynt, gan gynnwys defnyddio dosbarthiadau dechreuol a newid cymeriad ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion dwyieithog i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Daeth i'r casgliad fod angen i awdurdodau lleol fod "yn rhagweithiol ac mae angen i'r siroedd gael yr ewyllys i wneud hynny."[38]

### *Tryloywder*

70. Awgrymodd CYDAG y dylid rhoi ystyriaeth i ansawdd a chynwysoldeb y prosesau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cynllun;[39] o ran RhAG, mae diffyg eglurder yn y broses o ddatblygu'r cynllun, o gyflwyno'r ddogfen flynyddol i ddogfen a gaiff ei chymeradwyo. Roedd yn awgrymu ei bod yn anodd gweld pa newidiadau oedd wedi'u hawgrymu ac a oeddent wedi cael eu derbyn neu eu gwrthod. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol gwybod statws adborth blynyddol y Gweinidog i bob awdurdod lleol.[40]

71. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i bob Awdurdod Lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith eu Cynlluniau Strategol a chynnydd yn erbyn targedau. Teimla RhAG fod dull adrodd o'r fath "yn allweddol o safbwynt ymwybyddiaeth ymysg y prif randdeiliaid, sef rhieni a theuluoedd— hynny yw, eu bod nhw wedyn yn medru gweld ar lawr gwlad beth mae'r cynllun yn ei gyflawni neu, o bosib, beth nad yw'n ei gyflawni."[41]

---

[38] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP19
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP28
[41] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion

72. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a fyddai trefniant o'r fath yn rhoi baich ychwanegol ar awdurdodau lleol, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "I fod yn onest, nid oes data yn fanna nad ydym yn casglu'n barod fel rhan o unrhyw adroddiad arall. Mae gennym adroddiad safonau sir Gâr bob blwyddyn—ac mae nifer o siroedd eraill yn gwneud yr un peth—sy'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu ac i'r cyngor llawn. Mae'n cynnwys yr holl ddata ar bob maes gwaith yr awdurdod, ac yn benodol ar iaith, gwyddoniaeth a mathemateg. Felly, mae'r data ar gael. Byddai'n ddigon rhwydd i ni wneud e drwy ddiweddaru ein cynllun strategol yn rheolaidd. Ni fyddai'n waith ychwanegol i ni, cyhyd nag ydym yn cael rhyw dempled gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i ni ei lanw. Rydym eisiau dilyn proses adrodd sir Gâr"[42]

73. Yn ei sylwadau, cadarnhaodd Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y cyflwynir adroddiadau cynnydd blynyddol i Bwyllgor Craffu ar Addysg Gydol Oes yr Awdurdod Lleol.

74. Awgrymodd Rhondda Cynon Taf y byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru lunio papur safbwynt ar berfformiad pob awdurdod lleol dros gyfnod o bum mlynedd y Strategaethau.[43]

**Barn y Gweinidog**

75. Roedd y Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd Cynlluniau Strategol fel rhan bwysig o greu'r system sy'n angenrheidiol i wella'r gwaith o gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, a'r safonau cysylltiedig. Ychwanegodd y Gweinidog:

> "Whilst this mechanism has been accepted by local authorities, it is too early to judge the impact of the Plans, especially as the initial approval of WESPs and then the revised Plans has involved considerable modifications."[44]

76. Pwysleisiodd y Gweinidog mai un o gryfderau'r system Cynlluniau strategol oedd fod gennym broses ailadroddol a gydnabyddir yn gyhoeddus ar gyfer rhieni, grwpiau â diddordeb a'r awdurdod lleol er mwyn gweithio drwy beth yn union y gellir ei ddarparu mewn ardal benodol a chysylltu

[42] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion.
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP01
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20

hynny â galw rhieni. Bydd hyn bellach yn rhan o'r sgwrs ddemocrataidd bob blwyddyn ym mhob rhan o Gymru.[45]

77. Mewn perthynas â'r rownd gychwynnol, cadarnhaodd y Gweinidog fod 17 o'r 22 o Gynlluniau Strategol wedi cael eu cyfeirio yn ôl ganddo i awdurdodau lleol i gael eu haddasu. Dywedodd y swyddog gyda'r Gweinidog mai'r prif feysydd pryder oedd diffyg uchelgais y cynigion sy'n ymwneud â chynyddu twf a gwella safonau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

78. Mewn perthynas â gwelliannau posibl i system Cynlluniau Strategol, cadarnhaodd y Gweinidog safbwynt Llywodraeth Cymru:

> "The current WESPs for the period 2014 to 2017 are the first statutory plans. Our intention is not to make any significant changes to the requirements in terms of content until the end of this period. Local authorities will be required to prepare new 3-year plans for the period 2018 to 2021. We shall be considering what changes to the guidelines which might be required in readiness for the next round of plans. Changes to the content of WESPs may also require amendments to the Regulations."[46]

79. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor fod bob awdurdod lleol yr oedd angen iddynt gynnal asesiad o alw, wedi gwneud hynny. Mewn perthynas â'r broses a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol, dywedodd:

> "As yet, as I say, it does seem as if the assessments of parental demand have been reasonably robust. My regulatory powers around assessments click in in 2017, and certainly when that happens, I think we will have been through a couple of iterations of the current WESP rounds, and a great deal more will be understood by everybody, I think, in terms of what constitutes a proper, thorough assessment of parental demand. I'll be looking to be extremely rigorous in terms of regulating those assessments, but, as I say, since these are tri-annual requirements at least, then my regulatory powers don't actually come into force until the first three years have gone by, which is 2017."[47]

80. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn fodlon fod y system Cynlluniau Strategol yn ddigon tryloyw, gan ddweud ei

---

[45] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20
[47] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion

bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ynghylch cynlluniau diwygiedig yn unol â gofynion statudol a chyhoeddi'r cynlluniau diwygiedig pan fo Gweinidogion Cymru wedi'u cymeradwyo.[48] Ymhelaethodd y Gweinidog ar ei safbwyntiau pan ddaeth gerbron y Pwyllgor:

> "It should be absolutely transparent at local level exactly where the conversation has got to in terms of the developments around the WESP. This is a piece of local democracy. There's a forum overseeing it, any member of the public or any parent, of course, can involve themselves in terms of finding out exactly where the local authority: everyone can see a copy of the WESP, and so on. As I say, every three years there will be a refresh."[49]

81. Mewn perthynas â'r posibilrwydd y bydd awdurdodau lleol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd eu Cynlluniau Strategol, dywedodd y Gweinidog:

> "If a local authority wanted to issue an annual report, then of course it would be for them to do so. I don't know that the national view of how we're progressing in terms of the issues at stake that are covered by WESPs would be helped, really, by our having 22 annual reports. It would be an onerous thing, I think, to ask of local authorities as well, at a very difficult time. "[50]

### Safbwynt y Pwyllgor

82. Fel sawl cyfrannwr, mae'r Pwyllgor yn derbyn ei bod, efallai, yn rhy gynnar i fynegi barn gadarn ynghylch effaith ac effeithiolrwydd y Cynlluniau Strategol. Fodd bynnag, ni ddylai Llywodraeth Cymru anwybyddu pryderon Comisiynydd y Gymraeg bod gwendidau sylweddol yn dod i'r amlwg, a rhaid rhoi sylw iddynt.

### *Tryloywder*

83. Roedd canfyddiad ymhlith nifer o'r cyfranwyr nad yw'r system Cynlluniau Strategol yn ddigon tryloyw. Mae'n anodd asesu a yw Cynllun Strategol wedi cael ei ddiwygio a, pan fydd yn bosibl canfod newidiadau, mae'n amhosibl gwybod a gawsant eu gwneud i ymateb i argymhellion gan Lywodraeth Cymru neu oherwydd bod yr awdurdod lleol ei hun wedi

---

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20
[49] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[50] ibid

penderfynu bod angen newidiadau. Dylid mynd i'r afael â hyn fel bod yr holl newidiadau a'r rhesymau drostynt yn glir i randdeiliaid.

84. Er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd, dylai awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi amlinelliad o'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i gyrraedd y targedau yn eu Cynlluiau Strategol. Dylai'r adroddiad gynnwys manylion unrhyw addasiadau a wneir i Gynlluniau Strategol, gan gynnwys a ydynt wedi cael eu gwneud o ganlyniad i argymhellion gan Lywodraeth Cymru. O ystyried bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru wedi dweud na fyddai hyn yn faich ar awdurdodau lleol, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i hyn ddigwydd yn wirfoddol. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol os na wneir hynny'n wirfoddol.

85. Yng nghyd-destun gweithio mewn partneriaeth a gwella tryloywder, dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi gwybodaeth flynyddol am ei rôl yn y broses.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch amserlenni a threfniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd Cynlluniau Strategol.**

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am ei rôl yn cymeradwyo Cynlluniau Strategol, gan gynnwys manylion am ei hymateb i Gynlluniau Strategol pob awdurdod lleol a, phan fo'n briodol, y rhesymau pam y cafodd Cynllun Strategol ei gyfeirio yn ôl at awdurdod lleol i'w addasu, a'r camau a gymerwyd gan awdurdod lleol o ganlyniad i hynny.**

### *Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg*


86. Rydym yn deall bod y gwaith o asesu'r galw yn gymhleth ac na fydd un dull penodol yn gweithio. Nodwn sylw'r Gweinidog fod asesiadau o'r fath wedi bod, hyd yma, yn 'rhesymol gadarn'. Fodd bynnag, roedd gan sawl cyfrannwr, gan gynnwys awdurdodau lleol, bryderon ynghylch a yw dulliau cyfredol mor ddibynadwy neu gadarn ag y dylent fod. Mynegwyd pryderon ynghylch amseriad asesiadau a darparu gwybodaeth annigonol i rieni, a oedd yn golygu nad oeddent yn gallu ymateb mewn ffordd ystyrlon. Ymhellach, mae'n anodd deall sut y gall asesiadau gyda chyfraddau ymateb isel iawn gael eu defnyddio fel sail ar gyfer cynllunio effeithiol.

87. Soniodd y cyfranwyr am y rôl ddeuol sydd gan awdurdodau lleol wrth asesu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â hyrwyddo ei thwf. Roedd barn gref bod awdurdodau lleol wedi cael trafferth deall y rôl ddeuol hon yn llawn. Mae'n rhaid ymateb i hyn.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach gydag awdurdodau lleol ynghylch ei disgwyliadau mewn perthynas â hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg fel bod pob awdurdod lleol yn ymrwymo i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.**

**Argymhelliad: Cyn iteriad nesaf y Cynlluniau Strategol, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r prosesau ar gyfer asesu'r galw er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cadarn. Dylai prosesau gynnwys darpariaeth i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.**

## Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg




*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2014-15, Llywodraeth Cymru*

# 3. A yw'r rolau a'r cyfrifoldebau'n glir mewn perthynas â Chynlluniau Strategol?

*Ystyriodd y Pwyllgor a oedd digon o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac eraill mewn perthynas â Chynlluniau Strategol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar atebolrwydd gwleidyddol; gweithio mewn partneriaeth (a rôl Llywodraeth Cymru yn y bartneriaeth honno); hyrwyddo; a chyfraniad rhanddeiliaid.*[51]

### Atebolrwydd gwleidyddol a rôl swyddogion

88. Soniodd sawl cyfrannwr am atebolrwydd gwleidyddol ar lefel awdurdodau lleol. Awgrymodd Menter Bro Ogwr a Chlwstwr Ysgolion Ysgol Gyfun Ystalyfera y dylai uwch swyddogion awdurdodau lleol ac aelodau gwleidyddol gymryd mwy o ran yn y broses ar gyfer datblygu ac adolygu Cynlluniau Strategol. Credai RhAG y gallai mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o Gynlluniau Strategol arwain at fwy o gyfranogiad gan yr aelod etholedig â chyfrifoldeb dros addysg a'r pwyllgorau craffu yr awdurdod lleol ar addysg[52]

### Cynllunio rhanbarthol

89. Ym marn RhAG, mae diffyg eglurder a thryloywder yn rolau perthnasol awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran Cynlluniau Strategol[53]. Awgrymodd Bro Morgannwg, er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol o hyd am wella safonau, gallai'r gwaith o adolygu, monitro ac adrodd ar safonau mewn perthynas â pherfformiad addysg gael ei gwblhau'n rhanbarthol, gan fod agweddau ar wella ysgolion yn cael eu comisiynu'n rhanbarthol. Awgrymwyd y gallai'r templed Cynlluniau Strategol adlewyrchu'r ddwy ardal benodol, gan neilltuo cyfrifoldeb yn unol â hynny.[54] Cafodd hyn ei ategu gan Rhondda Cynon Taf.

90. Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru at Sir Gaerfyrddin fel enghraifft o weithio rhanbarthol effeithiol. Yno, roedd swyddogion o chwe awdurdod, y byddai rhai ohonynt fel arfer yn gweithio ar eu pen eu hunain, yn cydweithio fel tîm i rannu arfer da.[55] Yn eu barn hwy, mae angen dull o rannu arfer da ar lefel strategol er mwyn sicrhau cysondeb y cynnwys a'r disgwyliadau ledled

---

[51] Mae disgrifiad o gefndir a chyd-destun polisi Cynlluniau Strategol ar gael yn Atodiad B.
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP28
[53] ibid
[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP15
[55] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion

Cymru. Byddai hyn hefyd yn hwyluso perthynas agosach rhwng cynlluniau awdurdodau lleol / consortia gwahanol.[56]

**Rôl fforymau**

91. Ystyriwyd fod fforymau addysg cyfrwng Cymraeg yn elfen bwysig wrth ddatblygu Cynlluniau Strategol effeithiol. Yn benodol, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfrannodd at yr ymchwiliad yn teimlo y gallai'r fforymau fod yn effeithiol:

- Dywedodd Sir y Fflint fod uwch-swyddogion yn defnyddio'r fforwm i gynllunio a monitro canlyniadau; [57]
- Dywedodd Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod ei fforwm lleol yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol Wrecsam;[58]
- Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru at aelodaeth hyblyg fforwm Sir Gaerfyrddin, a fyddai'n cael ei ymestyn i grwpiau gwahanol yn dibynnu ar y materion a fyddai'n cael eu trafod;[59]
- Roedd Sir y Fflint o'r farn fod ymrwymiad gwirioneddol i weithio mewn partneriaeth[60] yn hanfodol i lwyddiant Cynlluniau Strategol. Teimla fod fforymau'n ysgogwr allweddol a bod eu hansawdd yn faes y mae'n werth ei ystyried.[61]
- Awgrymodd Grŵp Plaid Cymru Cyngor Torfaen y dylid rhoi pŵer i fforymau wneud trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; adrodd; cymeradwyo; a sicrhau cydymffurfiad â bodloni gofynion ar gyfer Cynlluniau Strategol.[62] Roedd y cyfraniad gan Gyngor Gwynedd yn awgrymu fod trefniant o'r fath eisoes ar waith yng Ngwynedd.

92. Fodd bynnag, mynegodd nifer o gyfranwyr bryderon ynghylch gweithrediad fforymau:

[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP38
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP03
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP14
[59] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion.
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP03
[61] ibid
[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP23

- Teimla RhAG fod gweithrediad ac effeithiolrwydd fforymau, yn gyffredinol, yn anghyson - fod “ambell sir lle nad yw'r fforymau yn cwrdd o gwbl, neu ddim yn ddigon aml.”[63]
- Nododd CYDAG “yn y mwyafrif o achosion, proses ynysig yw llunio’r Cynllun. Ni gynhwysir rhanddeiliaid yn llawn o bell ffordd. Nid yw sefydliadau yn ymwybodol o’r Cynllun na’r targedau na’u rôl hwythau yng ngweithrediad y cynllun.”[64]
- Teimla Comisiynydd y Gymraeg y gallai fforymau chwarae rôl bwysig, ond nad oedd yn glir ar hyn o bryd beth oedd y rôl honno, yn arbennig mewn perthynas â chonsortia rhanbarthol.[65]

93. Teimla nifer o gyfranwyr y gellid cryfhau rôl fforymau. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod fforymau'n dal i fod yn eu cyfnod ffurfiannol ac y dylid gwneud gwaith i asesu eu heffeithiolrwydd. Awgrymwyd y gellid gwella'r fforymau gydag “arweiniad cliriach o ran sut mae Fforwm y CSyGmA yn cael eu datblygu, gyda'r cyfle, wedyn, i ddehongli’n lleol.”[66] Ategodd RhAG yr angen am arweiniad, ac roedd yn teimlo bod diffyg eglurder ynghylch rôl rhanddeiliaid yn y broses, yn arbennig o ran a oeddent yn ymgyngoreion neu a ddylent gael cyfrannu mwy at ddatblygu'r Cynlluniau Strategol. Galwyd am adolygu rôl fforymau ac y dylid eu sefydlu ar “sail statudol” gyda “rôl graffu a monitro mwy cadarn a rhagweithiol.”[67]

### Cyfrifoldeb am hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg

94. Roedd codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg o'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn fater a godwyd gan sawl cyfrannwr. Teimla Comisiynydd y Gymraeg y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl gref o ran hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel genedlaethol.

> “O gael strategaeth sy’n gosod amcanion o ran addysg cyfrwng Cymraeg a Chymru ddwyieithog, y Llywodraeth, yn gyntaf, y dylai fod yn cynnal ymarferiad ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷ n â buddiannau addysg ddwyieithog. Wedyn, mae’r cyfrifoldeb yn disgyn ar awdurdodau lleol i fod yn rhan o’r patrwm yna o godi ymwybyddiaeth, ond nid wyf yn credu y dylem ni ddisgwyl

[63] Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP19
[65] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP38
[67]Tystiolaeth lafar, 2 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion

> i ysgolion fod yn cario'r baich yna'n uniongyrchol eu hunain. Maen nhw'n rhan o'r pictiwr, ond nid ar eu hysgwyddau nhw mae'r cyfrifoldeb llawn."[68]

95. Creda RhAG nad yw rhieni yn derbyn gwybodaeth briodol am yr opsiynau yn eu hardal ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedodd fod hyn yn arbennig o wir pan fo ysgol newydd yn cael ei sefydlu neu pan fo dosbarthiadau newydd yn cael eu hagor.

96. Nododd RhAG fod yr ymwybyddiaeth o ymgyrch ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn isel iawn ac nad oedd llawer o sôn am sut y dylai'r ymgyrch honno fod yn rhan o Gynlluniau Strategol.[69] Awgrymwyd hefyd nad oes digon o bwyslais ar lefel awdurdodau lleol, ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn ysgogi twf.[70]

**Rôl Llywodraeth Cymru**

97. Er mwyn i Gynlluniau Strategol lwyddo, cred RhAG fod angen partneriaeth wirioneddol rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, lle mae cyfrifoldeb ar y ddwy ochr.

> "Mae angen i'r siroedd bennu targedau clir a chydlynol i ddiwallu'r galw a hybu twf. Yn yr un modd mae angen i Lywodraeth Cymru gryfhau'r drefn gynllunio a gweithredu proses graffu a gwerthuso gadarn; ac os gwelir na fydd cynlluniau'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog Addysg ddefnyddio ei rymoedd newydd i ddiwygio cynlluniau gwan. Rhaid rhoi neges glir na fydd diffyg cydymffurfiaeth yn dderbyniol, er mwyn troi consensws ac ewyllys gwleidyddol cenedlaethol yn weithredu o ddifrif ar lawr gwlad."[71]

98. Ategwyd hyn gan Fenter Bro Ogwr[72], a awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru gyfrannu mwy at y broses, yn arbennig o ran pennu targedau ar gyfer awdurdodau lleol a datblygu Cynlluniau Strategol.

99. Dadl Cyngor Sir Dinbych yw y dylid cael rôl graffu, adolygu, blaenoriaethu a monitro gliriach ar gyfer pob Grŵp Strategol yn hytrach na

---

[68] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP28
[70] ibid
[71] ibid
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP32

Llywodraeth Cymru[73] ac awgrymodd mai rôl Llywodraeth Cymru ddylai fod i herio perfformiad pob Cynllun Strategol yn erbyn y canlyniadau strategol yn hytrach na chraffu ar dargedau unigol.

100. Mewn perthynas â thargedau, teimla Comisiynydd y Gymraeg fod angen arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru, ac "wedi herio a gosod y targed, yn sicr mae'n rhaid gweithredu'r targed yna. Nid y targed sy'n bwysig, ond cyflawni'r targed, ac nid wyf yn gweld beth yw rôl y Llywodraeth ar y pwynt yna."[74]

101. Teimla Pentan (Clwstwr Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Castell-nedd Port Talbot) hefyd y dylai fod mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol na allant ddangos yn glir eu bod yn bwriadu cyrraedd targedau, ac awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru gael rôl gryfach yn y broses fonitro.[75]

102. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y byddent yn croesawu mwy o gymorth a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion, yn arbennig pan fo "rhieni yn herio datblygiadau a phenderfyniadau a wneir gan ALl sy'n deillio o'r CSyGmA. Yn fwy aml na pheidio mae'r cyngor a roddir yn niweidio'r broses ac yn arafu / gorfodi'r ALl i ddod â'r newid i ben."[76]

### *Gallu'r Gweinidog i ymyrryd*

103. Disgrifiodd Comisiynydd y Gymraeg ei gweledigaeth ar gyfer rôl y Gweinidog fel un lle gallai roi canllawiau a chyfarwyddyd a defnyddio pwerau gorfodi, os oes angen. Byddai dull o'r fath yn helpu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â methiannau wrth iddynt godi.

104. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd yn credu fod diffyg eglurder ynghylch pwerau'r Gweinidog i ymyrryd pan fo awdurdod lleol yn methu â chyrraedd y targedau yn ei Gynlluniau Strategol. Ar ben hynny, nid oedd y trefniadau presennol ar gyfer gorfodi yn ddigon cadarn:

> "Nid yw ymyrryd bob tair blynedd ddim yn mynd i weithio— rŷ ch chi'n adeiladu ar fethiant tair blynedd wedyn, neu rŷ ch chi'n ceisio ymateb i fethiant tair blynedd. Mae angen cael pwerau lle maen nhw yn gallu ymyrryd, ac, os oes rhaid, defnyddio'r pwerau i gyfarwyddo a gorfodi. Rŷ ch chi'n sôn am special measures, neu amcanion arbennig

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP21
[74]Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP39
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP38

> mewn meysydd eraill o addysg; mae hwn yn bwysig hefyd. Felly, mae angen i'r ymgyrch genedlaethol godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, ac ochr yn ochr â hynny, mae angen cryfhau'r elfen fonitro statudol sydd yn nwylo'r Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod y WESPs yn gweithredu. Oherwydd, ar ddiwedd y dydd, maen nhw'n gynlluniau deddfwriaethol statudol—nid trafodaeth ar lawr gwlad. Dyma'r teclyn statudol sydd gyda ni i sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg."[77]

105. Roedd RhAG yn cydnabod na fydd ymyrraeth Weinidogol yn angenrheidiol os bydd y system yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, awgrymodd fod angen eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch y broses ymyrryd, gan gynnwys sut y gallai ymyrraeth o'r fath ddigwydd; o dan ba amgylchiadau y gallai ddigwydd; ac effaith neu ganlyniadau ymyrraeth o'r fath.

**Barn y Gweinidog**

106. Disgrifiodd y Gweinidog fforymau fel rhywbeth sy'n "angenrheidiol"[78] i'r system. Fodd bynnag, nododd nad ydynt, o reidrwydd, yn ei farn ef, yn llais y rhieni,[79] a phwysleisiodd pa mor bwysig yw ymgysylltu ac ymgynghori â rhieni yn lleol.

107. Wrth ymateb i gwestiwn am y pryderon yn ymwneud â fforymau y cafodd y Pwyllgor wybod amdanynt, dywedodd y Gweinidog:

> "The make-up of fora has been pretty much devolved to local authorities on the basis that the Welsh Government would trust them, as public bodies, to run these according to the restraint of public law and requirements around public law, and their requirement to act reasonably in terms of how these things are run. It shouldn't be for the Welsh Government to instruct local authorities how to run a forum properly; they should know."[80]

108. Roedd y Gweinidog o'r farn fod rôl i Lywodraeth Cymru ymgymryd â hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol a chadarnhaodd fod y wybodaeth am ddymunoldeb a gwerth addysgol addysg ddwyieithog neu addysg cyfrwng Cymraeg yn rhywbeth y dylem ei hyrwyddo'n barhaus o ran

[77] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[78] ibid
[79] ibid
[80] ibid

gwybodaeth i'r cyhoedd.[81] Cyfeiriodd y Gweinidog at ymgyrchoedd hyrwyddo Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys:

> "[…] information available to parents, whether in written form or online, and we've also had broadcast elements to that information campaign as well. We also developed three local campaigns in 2014-15 in Llanelli, Blaenau Gwent and Flintshire, working with partners and trying to find out what works best, really, at that local level—the partners were Twf, Mentrau Iaith Cymru and Mudiad Meithrin".[82]

109. Cadarnhaodd y Gweinidog, o ran codi ymwybyddiaeth yn lleol, fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi'r adnoddau i'r ysgolion eu hunain:

> "That is, the dialogue is supposed to happen between the school and its own community, really, and that is what will happen. We are going to develop some sort of toolkit for specific schools to work with their communities to explain the sort of experience that children have within their schools, and I think that's the best method. Subsequently, word spreads, if there is communication from the schools themselves about the provision. So, there's no need for a person in the middle, such as Families First or Communities First or whatever, but people working in the field, and that is what we've decided as the way forward."[83]

110. O ran y graddau y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ei hun yn y gwaith o weithredu Cynlluniau Strategol, dywedodd y Gweinidog:

> "I don't think it is my place as the Minister to individually police these local democratic decisions down to the nth detail. There is a local democratic mandate here […]"[84]

111. Roedd y Gweinidog yn aneglur ynghylch ei bwerau i ymyrryd a'r amgylchiadau lle byddai ymyrraeth o'r fath yn digwydd.

## Safbwynt y Pwyllgor

### *Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth*

112. Roedd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn fater allweddol i sawl cyfrannwr i'r ymchwiliad. Ym marn y Pwyllgor, rhaid i

---

[81] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[82] ibid
[83] ibid
[84] ibid

hyn ddigwydd ar sawl lefel wahanol er mwyn iddo fod yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am hyrwyddo'n genedlaethol; dylai awdurdodau lleol wneud gwaith hyrwyddo sydd wedi'i deilwra i'w cymunedau yn lleol; ac yn olaf, mae rôl i ysgolion sicrhau eu bod yn ymgysylltu â rhieni yn lleol.

113. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i ddarbwyllo bod gwaith hyrwyddo Llywodraeth Cymru yn genedlaethol wedi bod yn effeithiol a chred ei bod yn hanfodol ei bod yn gwneud hyn yn well.

114. Rhaid i Awdurdodau Lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod gwybodaeth ystyrlon ar gael i rieni am y gwahanol fathau o ddarpariaeth yn eu hardaloedd. Heb ddealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael, mae rhieni yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am addysg eu plant.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth mewn perthynas â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai'r strategaeth gynnwys adnoddau y gall awdurdodau lleol ac ysgolion eu defnyddio a'u haddasu.**

### *Fforymau addysg cyfrwng Cymraeg*

115. Cred yr holl gyfranwyr i'r ymchwiliad fod gan fforymau y potensial i chwarae rôl hanfodol o ran darparu Cynlluniau Strategol. Fodd bynnag, roedd sôn nad yw'r potensial yn cael ei wireddu'n llawn oherwydd diffyg cysondeb o ran dull ac aelodaeth. Teimla'r cyfranwyr y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gynorthwyo awdurdodau lleol i rannu arfer da a sicrhau effeithiolrwydd fforymau. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth a amlinellir yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â Chynlluniau Strategol.

116. Cred y Pwyllgor y dylai fforymau fod yn agored ac yn dryloyw ac y dylai aelodau'r cyhoedd allu mynychu eu cyfarfodydd os ydynt yn dymuno. Dylai Fforymau hefyd gyhoeddi gwybodaeth am y gwaith y maent wedi'i wneud.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid i gryfhau rôl fforymau fel eu bod yn fwy effeithiol. Dylai fforymau fod yn agored ac yn gynrychioliadol a dylent adrodd yn ôl yn flynyddol.**

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â Chynlluniau Strategol.**


### *Pwerau i ymyrryd*

117. Teimla rhai o'r rhanddeiliaid yn gryf y dylai'r Gweinidog ymyrryd pan nad yw awdurdodau lleol yn cyrraedd y targedau yn eu Cynlluniau Strategol. Cydnabuwyd na ddylai ymyrraeth o'r fath fod yn angenrheidiol os yw'r system Cynlluniau Strategol yn gweithio'n iawn ac yn sicrhau mwy o ddarpariaeth yn lleol.

118. Ceisiodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol ynghylch p'un a all Gweinidogion Cymru ymyrryd a chymryd camau os ystyriwyd nad oedd awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd i baratoi a gweithredu Cynlluniau Strategol yn gywir. Cynghorwyd y Pwyllgor y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i ymyrryd o dan adran 21 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn perthynas â Chynlluniau Strategol.

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth bresennol i ymyrryd pan fydd awdurdodau lleol yn methu â chyflawni eu Cynlluniau Strategol.**

# Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg




*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2014-15, Llywodraeth Cymru*

# 4. I ba raddau y mae Cynlluniau Strategol yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg?

*Craffodd y Pwyllgor ar ba mor effeithiol y caiff polisïau eu cydgysylltu i sicrhau dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dyfodol y Gymraeg.*

119. Pwysleisiodd y cyfranwyr pa mor bwysig yw ymagwedd gyfannol tuag at lunio polisi, ac roedd sawl un yn feirniadol o'r hyn a ganfyddir fel diffyg perthynas rhwng y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (WMES) a'r Cynlluniau Addysg, ac amrywiaeth o bolisïau cenedlaethol. Cludiant ysgolion a darpariaeth y blynyddoedd cynnar oedd dwy o nifer o enghreifftiau a ddarparwyd i'r Pwyllgor o bolisïau nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu'n briodol neu eu hintegreiddio o fewn Cynlluniau Strategol.

120. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at nifer o ymgynghoriadau polisi Llywodraeth Cymru nad oeddynt yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y Strategaeth ac eglurodd "[...] nid oes yma elfen o groesgyfeirio rhwng gwahanol bolisïau'r Llywodraeth. Mae yna strategaeth addysg Gymraeg, sy'n eistedd yn ganolog, ond wedyn nid yw hynny'n bwydo allan i'r polisïau eraill."[85]

121. Awgrymodd RhAG y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o bolisïau a strategaethau sy'n effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg[86]. Ar ben hynny, roedd angen Bil addysg cyfrwng Cymraeg i atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol a rhoi "eglurder ac arweiniad diamwys." [87]

122. Teimla rhai o'r cyfranwyr y rhyngweithiwyd yn effeithiol â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru. Teimla Cyngor Gofal Cymru fod Cynlluniau Strategol wedi creu cysylltiadau clir â Dechrau'n Deg a'r polisi blynyddoedd cynnar ehangach. [88] Esboniodd Cyngor Sir Ddinbych:

> "There are clear links in the WESP with 21st Century Schools Programme with capital investment in Welsh-medium education provision to respond to an increase in demand. Key outcomes in the

[85] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP28
[87] ibid
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP13

WESP relates to sustaining and increasing the number of pupils learning through the medium of Welsh and continuing studying through the medium of Welsh. This assists the objective of "A living language: a language for living" of increasing the number with Welsh language skills in the workplace. There is also a link between increasing Meithrin provision and Flying Start."[89]

123. Gwnaeth nifer o gyfranwyr sylwadau ar yr heriau o weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a gofynwyd a oedd adrannau yn cydweithio'n effeithiol. Teimla Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y gallai adrannau Llywodraeth Cymru weithio'n agosach:

> "Mae gweithio o fewn rheoliadau ac ymateb i ofynion gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru yn heriol ar adegau. Nid yw'n amlwg fod pob adran yn rhoi'r un sylw/pwysigrwydd i'r Gymraeg wrth gyfathrebu/datblygu polisi. Gellir cyflwyno'r un feirniadaeth i adrannau Cynghorau Sir.

124. Byddai'n dda o beth i bob adran gydweithio er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol llwyddiannus a rhoi cefnogaeth i swyddogion ALl sydd â'r cyfrifoldeb am weithredu argymhellion y CSyGmA."[90]

125. Awgrymodd CYDAG y gellid integreiddio polisïau Llywodraeth Cymru yn well drwy benodi neu ddynodi "uwch swyddog o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau gyda'r grym i sicrhau bod pob gwas sifil o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau yn llwyr ymwybodol o'r Cynllun, y Strategaeth a phob polisi arall yn ymwneud â'r Gymraeg. Dylai'r uwch swyddog hwn fod yn atebol am yr agwedd greiddiol hon o waith yr Adran."[91]

**Dechrau'n Deg**

126. Mae Dechrau'n Deg yn un o raglenni pwysicaf Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cymorth yn y blynyddoedd cynnar i deuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed, ac sy'n targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gofal plant rhan amser am ddim; ymweliadau iechyd gwell; rhaglenni cefnogi rhieni; a sgiliau chwarae a datblygu iaith. Roedd llawer o'r dystiolaeth mewn perthynas â Chynlluniau Strategol yn canolbwyntio ar bryderon fod diffyg argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg yn cael effaith ar ddewis rhiant o iaith yn y blynyddoedd

[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP21
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP38
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP19

cynnar ac mewn addysg statudol. Byddai hyn yn cael effaith anghymesur ar blant o gartrefi incwm isel.

127. Cyfeiriodd y Mudiad Meithrin at effaith diffyg mannau Dechrau'n Deg, a oedd yn awgrymu diffyg aliniad rhwng Cynlluniau Strategol a Dechrau'n Deg:

> “Er mai cynllun gofal plant yw Dechrau’n Deg, mae’r diffyg yn y cyfraddau rhwng niferoedd y plant mewn cynlluniau cyfrwng Cymraeg (h.y. Dechrau’n Deg nid Flying Start ) a niferoedd y plant mewn addysg Gymraeg ym mlwyddyn 2 yn yr ysgol gynradd, yn awgrymu ôl-gynllunio annigonol a all effeithio’n niweidiol ar nifer y plant sy’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg h.y. gallai'r niferoedd fod yn uwch pe byddai mwy o ddarpariaethau Dechrau’n Deg ar gael.”[92]

128. Cafodd y pryderon hyn eu hategu gan RhAG, a oedd yn credu y dylid eu "cywiro fel mater o frys." Aeth ymlaen i ddweud:

- yn amlach na pheidio, lleoliadau Dechrau'n Deg fydd y cyflwyniad cyntaf i ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar i nifer gynyddol o deuluoedd.
- er gwaethaf ei ymdrechion gorau, roedd Dechrau'n Deg wedi llesteirio ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.
- mae'r Gymraeg yn ystyriaeth ymylol yn hytrach na phrif ystyriaeth mewn perthynas â gweledigaeth y rhaglen.
- mae diffygion sylweddol yn y broses o sicrhau bod teuluoedd dan anfantais yn cael yr un mynediad at ddarpariaeth Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- nid yw'r ddarpariaeth o leoedd Dechrau'n Deg yn dod yn agos at y canrannau cyfredol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, a chaiff y patrwm hwn ei ailadrodd yn tua hanner y siroedd yng Nghymru.

129. Rhannodd Mentrau Iaith Cymru y pryderon ynghylch y llwybrau cynnydd o ofal plant i ddarpariaeth gynnar cyfrwng Cymraeg, gan nodi:

> “Mae cynllun Dechrau’n Deg yn un clodwiw ond mae yna dal diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sawl ardal ac mae peryg bod y llwybr at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei danseilio a’i gymylu gan arwain at lai o blant yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.”[93]

---

[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP20
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP30

**Trafnidiaeth dysgwyr ac ysgolion**

130. Mater allweddol i nifer sylweddol o gyfranwyr i'r ymchwiliad oedd eu pryder nad yw polisïau trafnidiaeth dysgwyr ac ysgolion awdurdodau lleol yn hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae pwysau ar gyllidebau yn gwaethygu'r broblem. Credai rhai cyfranwyr bod polisïau cludiant ysgol yn cael effaith sylweddol ar dwf posibl addysg cyfrwng Cymraeg a dylid adlewyrchu hyn yn well yn y Cynlluniau Strategol.

131. Roedd rhai o'r pryderon penodol yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn lleihau eu darpariaeth ddewisol ar gyfer disgyblion sy'n byw o fewn pellter cerdded statudol a'r effaith y gall hyn ei chael ar benderfyniadau rhieni ynghylch y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar.[94] Galwodd RhAG ar Lywodraeth Cymru i egluro sut y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu trafnidiaeth i ddysgwyr, a dywedodd:

> "Mae angen eglurder hefyd o ran camau y bydd llywodraeth Cymru yn eu cymryd os na bydd ALL yn gweithredu'n unol â hyn. Gan fod pellter ysgolion Cymraeg o gartrefi disgyblion yn fwy na phellter ysgolion Saesneg o gartrefi ar gyfartaledd, byddai disgwyl bod dyletswydd ar AALlau i ddarparu cludiant i wneud iawn am y gwahaniaeth hwn."[95]

---

[94] O dan ddarpariaethau *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008*, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardal. Mae'n ddyletswydd arnynt i wneud trefniadau ar gyfer trafnidiaeth am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n byw y tu allan i 'bellteroedd cerdded' penodol i'r ysgol addas agosaf, sy'n dair milltir ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd ac yn ddwy filltir ar gyfer ysgolion cynradd. Mewn achosion lle nad yw dysgwyr yn mynd i'r ysgol addas agosaf, gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn i ddarparu trafnidiaeth am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg ni waeth beth yw'r meini prawf o ran pellter er mwyn hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg wrth arfer swyddogaethau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr 2008, y dylid eu hamlinellu yn eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP).
Mae Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol statudol diwygiedig Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2014, yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol fodloni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan y Mesur. Mae'r canllawiau'n nodi: "Parents and learners may express a preference for a particular school, a particular type of language provision or faith school, but the Measure does not confer on those parents and learners any rights to free transport to their preferred school and or location, unless that school is determined by the local authority to be the learner's nearest suitable school and the learner meets the distance criteria."

132. Ategwyd y farn hon gan Mentrau Iaith Cymru, a awgrymodd ei bod yn hollbwysig y caiff targedau a chanllawiau cadarn eu llunio er mwyn sicrhau mynediad cyfartal ac agored i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy ddiwygio mesurau addysg a thrafnidiaeth.

133. Cyfeiriodd llawer o gyfranwyr yn benodol at ffioedd trafnidiaeth ar gyfer addysg ôl-16. Cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg 'Arolwg cludiant i ddysgwyr ôl-16 sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.'[96] O ran y rhan fwyaf o'r awdurdodau a ymatebodd i'r arolwg, roedd 50 y cant neu fwy o'r dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg ddwyieithog yn dibynnu ar drafnidiaeth. Roedd 8 o'r 22 awdurdod lleol yn codi ffi cludiant ar y dysgwyr hynny ar hyn o bryd, yn amrywio rhwng £60 a £380. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod polisïau trafnidiaeth yn cael eu hadolygu ar y pryd, neu'n debygol o gael eu hadolygu, a daethpwyd i'r casgliad a ganlyn:

> "[…] nid yw'n eglur a yw pob awdurdod yn adnabod goblygiadau tymor hir newidiadau i drefniadau cludiant ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog."

**Materion eraill**

134. Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch integreiddio polisïau eraill gyda'r Strategaeth a'r Cynlluniau Strategol, gan gynnwys:

- I ba raddau y mae **RhaglenYsgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain** yn cyfrannu at amcanion y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac a ddylid neilltuo cyllid yn genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol** a phryderon bod bylchau sylweddol mewn rhai agweddau penodol, er enghraifft mewn therapi lleferydd, seiciatreg a chymorth dyslecsia. Awgrymwyd y gallai Bil ADY Llywodraeth Cymru roi sylw i'r materion hyn.
- **Dylai darpariaeth Addysg Bellach** ffurfio rhan hanfodol o Gynlluniau Strategol er mwyn creu continwwm cyfrwng Cymraeg o ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar i ddarpariaeth addysg bellach. Byddai hefyd yn cefnogi datblygu gweithlu dwyieithog. Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg fod addysg ôl-16 yn rhan o'r jig-so a oedd yn gyfan gwbl ar goll mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Dylid bod ffocws ar Gynlluniau Strategol a strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyfredol Llywodraeth Cymru dros y tair i bum mlynedd nesaf, yn hytrach nag aros am y goblygiadau o weithredu **Adolygiad Donaldson** ar y cwricwlwm yng Nghymru.

**Barn y Gweinidog**

135. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod her drwy'r amser yn creu system fel y Cynlluniau Strategol a fydd yn gallu adlewyrchu'r agenda polisi addysgol cyfredol a chaniatáu ar gyfer dyletswyddau a gyflwynwyd er mwyn sicrhau ymatebion effeithiol i orchmynion polisi. Disgrifiodd y Gweinidog y Cynlluniau StrategolWESPs fel dull sy'n arwain at ddwyn ffrydiau polisi a ffrydiau gweithredol ynghyd:

> "Local authorities in their WESPs are required to demonstrate how they use the information gleaned from Childcare Sufficiency Assessments to plan for expansion of Welsh-medium childcare in order to feed into Welsh-medium education. In this context, the planning and provision of Welsh-medium Flying Start places is vital. Local authorities are also required to indicate how they have built planning for additional Welsh-medium school places into their Strategic Outline Programme for 21st Century Schools Funding. Similarly, scrutiny of 21st Century Schools Funding submissions involved examining how they align with their Welsh in Education Strategic Plan. Local authorities are also required to show how they comply with the requirements of the Learner Travel (Wales) Measure 2008". [97]

136. Cyfeiriodd y Gweinidog at y rhyngweithio rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a nododd:

> "In practice, we have seen some local authorities slow to engage with departments or teams who should be feeding into the preparation of the WESP. This has been reflected in the variability of the sections dealing with early years education indicating that the relevant officers have been involved to very different degrees. It has also been true of those officers dealing with learner transport matters. At times, submission for 21st Century Funding have included obsolete references as far as Welsh-medium education is concerned showing

[97] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP35

that officers responsible for the WESP have not always liaised with those taking forward Capital Funding applications”. [98]

137. Cadarnhaodd y Gweinidog fod darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig ar gyfer ffurfio Cynlluniau Strategol ac y dylai pob Cynllun roi trosolwg strategol o sut mae'r lleoliadau cyn ysgol yn cyfrannu i'r system. Darpariaeth y blynyddoedd cynnar hefyd yw lle y gellir gwneud y cynnydd mwyaf o ran codi'r niferoedd hynny erbyn iddynt fod yn saith oed. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor hefyd fod cynnydd mesuradwy wedi bod yn nifer y lleoedd Dechrau'n Deg a gynigiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg.[99]

138. Dywedodd y Gweinidog mai nod y Cynlluniau Strategol oedd sicrhau y gall rhieni a disgyblion gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol os mai dyna'r hoffent ei wneud, ni waeth ble maent yn byw na beth yw eu hamgylchiadau economaidd penodol. Gan gyfeirio at gludiant i ddysgwyr, dywedodd:

> “[…] it’s certainly something that I know has exercised the minds of all 22 local authorities when they’ve been drawing up their WESPs, and we will need to return to this more than once, I suspect. At the higher end of the age range we’ve got that support that’s come from the Minister for Economy, Science and Transport for older young people, if you like, and we do still have the EMA here in Wales, which I know many young people use, primarily for transport costs post 16."[100]

139. Cyfeiriodd y Gweinidog at ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dywedodd fod canlyniad penodol sy'n ymwneud ag anghenion ychwanegol wedi ei gynnwys fel na chaiff disgyblion ag anghenion o'r fath eu hatal, cyn belled ag y bo modd, rhag dewis addysg cyfrwng Cymraeg. "Welsh-medium education is open to all. In essence, it is about enabling parents and pupils to make an informed choice. Whether they choose to enter the Welsh-medium sector or the English-medium sector, once they have made that choice we want them to have an education of high quality which enables them to reach their potential."[101]

---

[98] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP35
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP35
[100] Tystiolaeth lafar, 8 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, WESP35

## Safbwynt y Pwyllgor

### *Dechrau'n Deg*

140. Nodwn y pryderon a fynegwyd gan gyfranwyr ynghylch y prinder mewn lleoedd Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg (neu ddarpariaeth gymysg) o'i gymharu â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 7 oed a chredwn y gallai hyn gael effaith sylweddol ar gynnydd o ofal plant i ddarpariaeth addysg gynnar cyfrwng Cymraeg. Bydd y diffyg hwn yn cael yr effaith fwyaf ar blant o deuluoedd incwm isel. Unwaith eto, mae hyn yn enghraifft o strategaeth genedlaethol heb gael ei halinio â darpariaeth leol.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro hefyd beth yw'r rhesymau am y diffyg rhwng canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o dan y rhaglen Dechrau'n Deg a'i tharged i 25 y cant o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015 (a 30 y cant erbyn 2020). Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg.**

### *Trafnidiaeth dysgwyr ac ysgolion*

141. Roedd gan y cyfranwyr bryderon sylweddol ynghylch y mater hwn, yn arbennig o ran cyflwyno ffioedd teithio i fyfyrwyr ôl-16 i gyrraedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth, ond rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater fel bod polisïau trafnidiaeth dysgwyr yn cefnogi, ac nid yn tanseilio, sut y caiff y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ei darparu. Efallai bod angen ailystyried y Mesur Teithio gan Ddysgwyr er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn cyd-fynd ag amcanion Cynlluniau Strategol a'r Strategaeth.

**Argymhelliad: Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod trefniadau o ran trafnidiaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog yn cefnogi cyrraedd targedau ei Strategaeth.**

### *Anghenion Dysgu Ychwanegol*

142. Ymddengys bod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd am gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir amrywiaeth ranbarthol hefyd yn lefel y ddarpariaeth. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys a gallai fod yn briodol cyflwyno trefn ranbarthol o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

**Argymhelliad: Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y bydd yn mynd i'r afael â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a p'un a fyddai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd i ddod yn gyfrwng priodol i wneud hynny.**

***Addysg bellach – ôl-16***


143. Rydym yn cytuno y dylid cynnwys darpariaeth addysg bellach mewn Cynlluniau Strategol er mwyn cryfhau'r parhâd o'r blynyddoedd cynnar i ddarpariaeth addysg bellach. Gall hyn hefyd helpu i fynd i'r afael â'r pryderon mewn perthynas â chapasiti gweithlu dwyieithog.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o sicrhau y caiff pwysigrwydd addysg ôl-16 ei adlewyrchu yn y strategaeth ac yng Nghynlluniau Strategol awdurdodau lleol.**

***Adolygiad Donaldson***

144. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog y bydd gweithredu Adolygiad Donaldson yn cael effaith sylweddol ar addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor, yn y cyfamser, fod yn rhaid i'r Gweinidog sicrhau na chaiff cyfleoedd eu colli oherwydd ffocws ar systemau a gaiff eu rhoi ar waith mewn ychydig flynyddoedd. Bydd colli ffocws dros y dair i bum mlynedd nesaf yn cael effaith sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i fodloni ei dyheadau.

# Targed Strategaeth Cyfrwng Cymraeg




*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2014-15, Llywodraeth Cymru*

# Atodiad A – Dull y Pwyllgor o weithredu

## Cylch Gorchwyl

145. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd trafod:

- A yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru;
- A yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg);
- Trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn);
- A yw WESPs yn dangos y rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a pholisïau a deddfwriaeth perthnasol eraill (er enghraifft, y polisi trafnidiaeth ysgolion; Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; Iaith fyw: iaith byw – datganiad polisi symud ymlaen; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio);
- A yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl (er enghraifft disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel).

## Dull y Pwyllgor o weithredu

146. Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) – 2 Gorffennaf 2015
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – 2 Gorffennaf 2015
- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau – 8 Gorffennaf 2015
- Comisiynydd y Gymraeg – 8 Gorffennaf 2015

147. Cyflwynwyd galwad am dystiolaeth hefyd a chafodd y Pwyllgor 41 o ymatebion ysgrifenedig.

# Atodiad B - Cyd-destun a chefndir polisi

### *Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*

148. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010. Ei diben yw gwella'r gwaith o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a chodi safonau. Ei nod yw:

- gwella'r gwaith o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob oedran (cyn-statudol, statudol a chyfnodau ôl-14 o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg);
- cynllunio ar gyfer gweithlu priodol;
- gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg; a
- chyfrannu at sicrhau ac atgyfnerthu sgiliau Cymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.

149. Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau pum mlynedd penodol a thargedau deng mlynedd dangosol. Ers 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi manylion am y cynnydd o ran cyrraedd y targedau.

### *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs)*

150. Dulliau i alluogi cyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw'r Cynlluniau Strategol . Cawsant eu cyflwyno'n wreiddiol yn 2012, a chawsant eu paratoi gan awdurdodau lleol a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru ar sail anstatudol. Oherwydd statws anstatudol y Cynlluniau Strategol, nid oedd gan Weinidogion Cymru rôl ffurfiol i'w chwarae o ran eu cymeradwyo.

151. Roedd Rhan 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn rhoi sail statudol i'r Cynlluniau Statudol. Mae'r Ddeddf yn diffinio WESP fel cynllun sy'n cynnwys:

> “(a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn—
>
> > (i) gwella’r broses o gynllunio’r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (“addysg cyfrwng Cymraeg”) yn cael ei darparu yn ei ardal;

(ii) gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(b) targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(c) adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

152. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun, ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ac yna chyhoeddi'r Cynllun Strategol cymeradwy. Yn unol â'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynllun fel y'i cyflwynir, ei gymeradwyo gydag addasiadau, neu ei wrthod a pharatoi cynllun arall a gaiff ei drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnig addasu neu wrthod cynllun, rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdod lleol.

153. Cyflwynwyd y Cynlluniau Strategol statudol cyntaf i Weinidogion Cymru ym mis Rhagfyr 2013 ac roeddent yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2014 a 2017. Cymeradwywyd 19 o gynlluniau gydag addasiadau; cymeradwywyd tri fel y'u cyflwynwyd.

154. Fel rhan o gylch gwaith Estyn ar gyfer 2015-16, bydd yn archwilio sut y gweithredir Cynlluniau Strategol[102], ac mae'n debygol o gyflwyno adroddiad yn ystod haf 2016.

### *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013.*

155. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag asesu'r galw, hyd cynllun, ei ffurf a'i gynnwys, ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, amseriad a'r math o gyhoeddiad, manylion pellach am ymgynghori, a threfniadau ar gyfer adolygu cynllun. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi mewn mwy o fanylder y materion y bydd y cynllun yn ymdrin â hwy.

---

[102] Bydd yr adolygiad hwn yn mesur pa mor briodol yw cynnwys Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol ynghyd ag effeithiolrwydd y camau gweithredu manwl o safbwynt gwella gwaith cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a safon addysgu mewn perthynas â'r Gymraeg, Cymraeg Ail Iaith ynghyd â safon addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

156. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, erbyn 20 Rhagfyr bob blwyddyn, i adolygu ei gynnydd yn erbyn y targedau yn ei gynllun cymeradwy a chyflwyno unrhyw gynllun diwygiedig i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynlluniau diwygiedig fel rhai cymeradwy fel y'u cyflwynir neu fel rhai a gyflwynir gydag addasiadau. Yn 2014, cymeradwywyd 5 fel y'u cyflwynwyd ac 17 gydag addasiadau.

157. Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a oedd yn egluro sut y dylai awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno eu Cynlluniau Strategol.

### *Targedau'r Strategaeth a Chynlluniau Strategol*

158. Mae Cynlluniau Strategol yn cynnwys targedau y bwriedir iddynt gefnogi'r gwaith o gyflwyno targedau cyffredinol Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar dargedau canlynol y Strategaeth:

- mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o'r garfan Blwyddyn 2;
- mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mwy o fyfyrwyr rhwng 16 ac 19 oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.

159. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn adrodd ar y canlynol:

- Safonau cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith;
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- Chynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

## Atodiad C - Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=179

| **Organisation** | **Reference** |
|---|---|
| Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf | WESP 01 |
| Ysgol Dyffryn Conwy | WESP 02 |
| Cyngor Sir y Fflint | WESP 03 |
| All Ceredigion: Athrawes Ymgynghorol Llythrennedd | WESP 04 |
| Dyfodol i'r Iaith | WESP 05 |
| Cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint | WESP 06 |
| Dinas a Sir Abertawe | WESP 07 |
| Grŵp Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf | WESP 08 |
| ATL Cymru | WESP 09 |
| Cynghorydd Arfon Jones | WESP 10 |
| Urdd Gobaith Cymru | WESP 11 |
| Comisiynydd y Gymraeg | WESP 12 |
| Cyngor Gofal Cymru | WESP 13 |
| Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | WESP 14 |
| Bro Morgannwg | WESP 15 |
| Rosalyn Davies | WESP 16 |

| | |
|---|---|
| Cyngor y Gweithlu Addysg | WESP 17 |
| Grŵp Ymgyrchu dros Addysg Cymdeithas yr Iaith | WESP 18 |
| CYDAG | WESP 19 |
| Mudiad Meithrin | WESP 20 |
| Sir Ddinbych Cyngor | WESP 21 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pent-y-bont ar Ogwr | WESP 22 |
| Grŵp Plaid Cymru ar Gyngor Torfaen | WESP 23 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol | WESP 24 |
| Rhodri Davies | WESP 25 |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | WESP 26 |
| Carys Swain | WESP 27 |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) | WESP 28 |
| Cyngor Gwynedd | WESP 29 |
| Mentrau Iaith Cymru | WESP 30 |
| Norman Hudson | WESP 31 |
| Menter Bro Ogwr | WESP 32 |
| Ymgyrch TAG | WESP 33 |
| J Jones | WESP 34 |
| Y Gweinidog Addysg a Sgiliau - Llywodraeth Cymru | WESP 35 |
| Awdurdod Addysg Sir Gâr ac ERW | WESP 36 |

| | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeisdref Sirol | WESP 37 |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru \| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | WESP 38 |
| Pentan – Clwstwr Ysgolion Cymraeg Nedd a Phort Talbot | WESP 39 |
| Clwstwr Ysgolion Ysgol Gyfun Ystalyfera | WESP 40 |
| UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) | WESP 41 |

## Atodiad D – Tystiolaeth Lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=12717&Opt=3

| Dyddiad | Tystion / Sefydliad |
|---|---|
| 02 Gorffennaf 2015 | **Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)**<br>Elin Maher, Aelod o Bwyllgor Cenedlaethol Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) a chynrychiolydd lleol Casnewydd<br>Ceri Owen, Cyfarwyddwr Datblygu - Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| | **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>Gareth Morgans, Prif Swyddog Addysg - Sir Gaerfyrddin<br>Catrin Griffiths, Cynghorydd Her sydd â chyfrifoldeb am Gymru |
| 08 Gorffennaf 2015 | **Llywodraeth Cymru**<br>Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr - y Gymraeg<br>Gari Lewis, Pennaeth y Gymraeg mewn Addysg - y Gangen Gynllunio |
| | **Comisiynydd y Gymraeg**<br>Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg<br>Dyfan Sion, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil<br>Sioned Birchall, Swyddog Polisi ac Ymchwil |